



(Cyhoeddwyd | Issued : 24/10/2023)

**DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003**  
**TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE**

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

Rhif trwydded | Premises licence number: **PRM 0727 (Cyhoeddwyd | Issued : 24/10/2023)**

**Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details**

**Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:  
Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**

**LLEW COCH / RED LION  
HEOL PONTRHYDFENDIGAID / ROAD**

**Tref bost | Post town**

**TREGARON**

**Côd Post | Post cod**

**SY25 6HH**

**Rhif ffôn | Telephone number**

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau | Where the licence is time limited the dates  
NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED  
PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:  
Licensable activities authorised by the licence:**

**ADLONIAENT WEDI EI REOLEIDDIO /REGULATED ENTERTAINMENT:**

**CHWARAEN DAN DO /INDOOR SPORTING EVENTS**

**CERDDORIAETH FYW - O Dan Do /LIVE MUSIC – Indoors**

**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO – O Dan Do /RECORDED MUSIC – Indoors**

**PERFFORMIADAU DAWNS - O Dan Do /PERFORMANCES OF DANCE – Indoors**

**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI  
RECORDION neu PERFFORMIADAU O DAWNS – O Dan Do / ANYTHING OF A SIMILAR  
DESCRIPTION TO LIVE MUSIC or RECORDED MUSIC or PERFORMANCES OF DANCE –  
Indoors**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS – O Dan Do a Thu Allan /LATE NIGHT  
REFRESHMENT – Indoors and Outdoors**

**CYFLEWNI ALCOHOL – Ar ac Oddi Ar y Safle / SUPPLY OF ALCOHOL – On and Off Sales**

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**  
**The times the licence authorises the carrying out of licensable activities**

**ADLONIAENT WEDI EI REOLEIDDIO /REGULATED ENTERTAINMENT:  
CHWARAEON DAN DO /INDOOR SPORTING EVENTS**

**SUL – IAU / SUN – THU: 1100 – 2400**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 1100 – 0200**

**CERDDORIAETH FYW – O Dan Do /LIVE MUSIC – Indoors**

**SUL – IAU /SUN – THU: 1100 – 2300**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 1100 – 2400**

**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO – O Dan Do / RECORDED MUSIC – Indoors**

**SUL – IAU / SUN – THU: 1100 – 0100**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 1100 – 0200**

**PERFFORMIADAU DAWNS – O Dan Do / PERFORMANCES OF DANCE – Indoors**

**SUL – IAU / SUN – THU: 1100 – 2400**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 1100 – 0200**

**UNRHYW BETH SY’N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI  
RECORDION neu PERFFORMIADAU O DAWNS – O Dan Do /ANYTHING OF A SIMILAR  
DESCRIPTION TO LIVE MUSIC or RECORDED MUSIC or PERFORMANCES OF DANCE –  
Indoors**

**SUL – IAU / SUN – THU: 1100 – 2400**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 1100 – 0200**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS – O Dan Do a Thu Allan / LATE NIGHT  
REFRESHMENT – Indoors and Outdoors**

**SUL – IAU / SUN – THU: 2300 – 0100**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 2300 – 0200**

**CYFLENWI ALCOHOL – Ar ac Oddi Ar y Safle / SUPPLY OF ALCOHOL – On and Off Sales**

**SUL – IAU / SUN – THU: 1100 – 2400**

**GWE a SAD / FRI & SAT: 1100 – 0200**

**AMSERAU ANSAFONOL  
NON-STANDARD TIMINGS**

**Noswyl Calan, Noswyl Nadolig a Diwrnod San Steffan – Un awr ychwanegol i'r awr terfynol /  
New Years' Eve, Christmas Eve and Boxing Day – One additional hour to terminal hour**

**Oriau agor y safle | The opening hours of the premises**

**SUL – IAU / SUN – THU: 0700 – 0130  
GWE a SAD / FRI & SAT: 0700 – 0230**

**AMSERAU ANSAFONOL /NON-STANDARD TIMINGS**

**Noswyl Calan, Noswyl Nadolig a Diwrnod San Steffan – Un awr ychwanegol i'r awr terfynol /  
New Years' Eve, Christmas Eve and Boxing Day – One additional hour to terminal hour**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle  
neu oddi yno**

**Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE | ON AND OFF SALES**

**Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle  
| Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of  
premises licence**

**TREVOR THOMAS HIGGINBOTTOM  
LYNNE HIGGINBOTTOM**

**Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)  
Registered number of holder, for example company number, charity number (where  
applicable)**

**Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu  
cyflenwi alcohol | Name, address and telephone number of designated premises supervisor  
where the premises licence authorises the supply of alcohol**

**CHARLOTTE AMBER MASSEY**

**Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y  
Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol  
Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated  
premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**

**CER 1594**

**CYNGOR SIR CEREDIGION / COUNTY COUNCIL**

ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL

**1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
- (2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
  - (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
  - (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
- (3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

**2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
- (2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
- (3)
  - (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
  - (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
- (4) Yn yr adran hon -  
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae "corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

**3 Amod gorfodol: goruchwyllo drysau**

- (1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- (2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
  - (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
  - (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
    - (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
    - (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
- (3) At ddibenion yr adran hon -
  - (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
  - (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014**

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

1. Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.
2. At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-
  - (a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(6);
  - (b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –
$$P = D + (D \times V)$$
pan mai –
    - (i) P yw'r pris a ganiateir
    - (ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
    - (iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol
  - (c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
    - (i) Deiliad y drwydded safle,
    - (ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
    - (iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;
  - (d) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac
  - (e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)
3. Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.
4. (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.  
  
(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

### **Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014**

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014**.

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

1. (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

2. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

3. (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

4. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ pint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

## **Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS**

### **1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol**

- (1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
- (2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
  - (a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
  - (b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
- (3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

### **2 Mandatory condition: exhibition of films**

- (1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
- (2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
- (3) Where-
  - (a) the film classification body is not specified in the licence, or
  - (b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
- (4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

### **3 Mandatory condition: door supervision**

- (1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
- (2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
  - (a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
  - (b) in respect of premises in relation to-
    - (i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
    - (ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
- (3) For the purposes of this section-



- (a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and
- (b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014**

#### **With effect from 28<sup>th</sup> May 2014**

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.
2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-
  - (a) "duty" is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;
  - (b) "permitted price" is the price found by applying the formula –
$$P = D + (D \times V)$$
where –
    - (i) P is the permitted price
    - (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and
    - (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol
  - (c) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –
    - (i) The holder of the premises licence,
    - (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or
    - (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;
  - (d) "relevant person" means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and
  - (e) "valued added tax" means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994
3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

4. (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day (“the first day”) would be different from the permitted price on the next day (“the second day”) as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

### **The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014**

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1<sup>st</sup> October 2014**

**Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.**

1. (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

2. The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

3. (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18 years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

- (a) a holographic mark, or
- (b) an ultraviolet feature.

4. The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

- (i) beer or cider: ½ pint;
- (ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
- (iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and

(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

## Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu

### a) Cyffredinol

- Hyfforddiant staff i'w ddarparu gan Ddeiliaid y Drwydded Safle. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys polisi gwirio oedran, gwerthu i bobl feddw ac ati. Y staff i arwyddo dogfen hyfforddiant gyda'u cyfrifoldebau, i'w hanfon gan yr Ymgeisydd o fewn 7 diwrnod.
- Byddwn yn wylidwrus o ran atal gwerthu a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac os down ni ar eu traws, byddwn yn ffonio'r Heddlu."

### b) Atal troseddau ac anhrefn

- Galw'r heddlu os amheuir bod pobl â chyffuriau neu arfau yn eu meddiant
- CCTV yn gwyllo'r holl ardaloedd cyhoeddus o fewn yr ardal drwyddedig gan gynnwys y coridor. CCTV i gydymffurfio â Safonau Heddlu Dyfed Powys.

### HEDDLU DYFED POWYS

- Byddwn yn rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw drosedd.
- Cadw golwg ar ardaloedd y toiledau'n rheolaidd i atal gwerthu neu ddefnyddio cyffuriau
- Galw'r Heddlu os amheuir bod pobl â chyffuriau neu arfau yn eu meddiant

### c) Diogelwch cyhoeddus

- Peidio â gorlenwi'r safle
- Niferoedd uchaf a ganiateir i'w cadarnhau gan y Frigad Dân a'i danfon at yr Awdurdod Trwyddedu cyn i'r eiddo agor a'n gweithredu fel eiddo trwyddedig.
- Unrhyw ddiod a gollir neu wydr a falir i'w glirio ar unwaith fel nad yw'r lloriau'n mynd yn llithrig neu'n anniogel
- Cadw'r biniau poteli i ffwrdd o ardaloedd cyhoeddus bob amser
- Gwneud y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth dim ysmegu a gwneud yn siŵr bod pawb yn cydymffurfio
- Niferoedd uchaf ynr eiddo, heb dodrefn yw 186.

### d) Atal niwsans cyhoeddus

- Cau'r gerddi a'r ardaloedd awyr agored am 11pm
- Cadw biniau sbwriel a gwastraff gwydr yng nghefn y safle, i ffwrdd o ardaloedd cyhoeddus.
- Ni chaniateir mynediad i gwsmeriaid 'newydd' ar ôl canol nos yn ystod yr wythnos ac ar ôl 1am ar Ddydd Gwener a Dydd Sadwrn, ac eithrio i ysmygwyr
- Unrhyw oleuadau tu allan wedi'u gosod fel nad ydynt yn aflonyddu ar drigolion cyfagos, a'r goleuadau allanol ar gyfer y safle i'w troi i ffwrdd ar ôl i'r safle gau i'r cyhoedd.
- Bydd unrhyw nwyddau a ddosbarthir i'r safle er mwyn rhedeg y busnes yn cael eu derbyn ar adeg neu mewn modd sy'n osgoi tarfu ac aflonyddu ar drigolion cyfagos.
- Bydd y biniau poteli'n cael eu gwacau rhwng 9am a 6pm
- Gosodir arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel fel nad ydynt yn amharu ar y cymdogion.
- Bydd unrhyw un sy'n swnllyd yn fynych wrth adael y safle'n cael ei wahardd.

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

- Polisi gwirio oedran 'Challenge 21' yn ei le.
- Gofynnir i blant dan 10 oed i adael y safle cyn 10pm oni bai eu bod yn mynychu parti teuluol a drefnwyd ymlaen llaw
- Hyfforddiant staff i'w ddarparu gan Ddeiliaid y Drwydded Safle. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys polisi gwirio oedran, gwerthu i bobl feddw ac ati. Y staff i arwyddo dogfen hyfforddiant gyda'u cyfrifoldebau, i'w hanfon gan yr Ymgeisydd o fewn 7 diwrnod.

## **Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule**

### **a) General**

- Staff training to be provided by Premises Licence Holders. Training will include age verification policy, selling to drugs etc. Staff to sign a training document with their responsibilities.
- We will be vigilant in preventing the use and the sale of illegal drugs and if we find them we will phone the Police.

### **b) The prevention of crime and disorder**

- Calling the police if persons are suspected of being in possession of drugs or weapons
- CCTV to cover all public areas within the licensed area including the corridor. CCTV to comply with Dyfed Powys Police Standards:

#### **DYFED POWYS POLICE**

#### **SUMMARY OF CCTV CONDITIONS FOR LICENSED PREMISES**

- 1. The system must be installed by a company certified by SSAIB or NSI Gold standard**
- 2. The whole of the licensed area with entry and exit areas must be covered by cameras, and there must not be any hidden or obscured areas .This will deal with issues which have arisen outside the premises when customers have been arriving or leaving**
- 3. Main entrance / exit to have a camera meeting a minimum of 100%R image quality**
- 4. All footage must be of good quality and of a minimum performance capability sufficient to identify individuals**
- 5. It must be in colour**
- 6. It must record at a minimum of 12 images per second**
- 7. All images will be time and date stamped**
- 8. All footage during the hours of Licensable activities to be retained for a period of 30 days**
- 9. The CCTV system must operate continuously, and if a defect arises the police must be informed and immediate arrangements must be made to rectify the fault**
- 10. All footage must on demand be made available to a police officer or PCSO for viewing and a copy of that footage made immediately available to a police officer or PCSO**
- 11. At all times during the period of operation of the premises there must be a competent person on the premises able to undertake the export of recordings quickly onto a removable storage medium. Memory Stick, CD, or DVD format is acceptable to the police. The master copy will be available to the police on demand**

**12. The system must incorporate a means of transferring images from the hard-drive to a format that can be played back on any Microsoft Windows or MAC compatible computer. The application software required to launch and view recorded images must either be included as part of the standard operating system installed or be installed to the recorded media when the data is copied to that media**

**13. The system must be registered with the Information Commissioner (Tel 0303 123 1113 or email [registration@ico.org.uk](mailto:registration@ico.org.uk) )**

**14. Full details and specification can be found at the following link:**

<http://www.dyfed-powys.police.uk/media/248626/cctv-guidelinesjuly-2015.pdf>

- We will report any criminal offence to the Police
- Regularly checking toilet areas to discourage the sale or use of drugs
- Calling the Police if persons are suspected of being in possession of drugs or weapons

**c) Public safety**

- Not overcrowding the premises.
- Capacity figures to be confirmed by the Fire Authority and submitted to the Licensing Authority before the premises is open and operating as a licensed premises.
- Spillages and broken glass to be cleaned up immediately to prevent floors from becoming slippery or unsafe
- Secure bottle bins away from public areas at all times
- Making all staff aware of their responsibilities regarding the smoke-free legislation and for monitoring compliance
- Capacity Figure – 186 unfurnished.

**d) The prevention of public nuisance**

- Close gardens and open air areas at 11pm
- Keep rubbish bins and glass refuse at the rear of the premises, away from public access
- Last entry for 'new' customers will be midnight throughout the week and 1am Friday and Saturday, save for smokers.
- Any outside lighting positioned in a way as not to cause a disturbance to nearby residents with external lighting for the premises to be turned off after the premises are closed to the public
- Deliveries of goods necessary for the operation of the business will be carried out at such a time or in such a manner as prevent nuisance and disturbance to nearby residents
- Emptying of bins to be done between 9am and 6pm
- Notices to be displayed asking customers to leave quietly so as not to disturb neighbours
- Anyone who is consistently noisy when leaving premises will be banned

**e) The protection of children from harm**

(Cyhoeddwyd | Issued : 24/10/2023)

- Children under the age of 10 will be asked to leave the premises before 2200hrs except when present for a pre-arranged party.
- Age verification policy in place – Challenge 21
- Staff training to be provided by Premises Licence Holders. Training will include age verification policy, selling to drugs etc. Staff to sign a training document with their responsibilities.



### Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawriad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu

Cyfarfod cyfryngu a cynhaliwyd yn Llew Coach, Tregaron ar Ddydd Llun, 20fed Tachwedd 2017.

Yn bresennol: Lynne Higginbottom (Ymgeisydd); Catrin Davies (Swyddog Trwyddedu Cynorthwyol); John Evans (Swyddog Trwyddedu'r Heddlu); Sarsiant Richard Marshall (Heddlu Dyfed Powys).

Tynnwyd allan rhai amodau a gyflwynir ar gais. Cytunwyd hefyd ar y materion isod:

- Cynllun - Saith ystafell wely - Ddim o fewn yr ardal drwyddedig. Y stafelloedd gwely heb eu cwblhau i'w gosod eto. ***Cysylltir â'r Awdurdod Trwyddedu pan fyddant wedi'u cwblhau i drafod gofynion trwyddedu (os oes angen)***
- Cynllun – Ardal i'r Ochr – Ardal gaeedig i'w defnyddio fel rhyw fath o ardal allanol (gyda drysau patio ar agor). Ardal seddi ychwanegol. Pryderon na fydd unrhyw reolaeth dros yr oriau a'r amodau am nad yw'r ardal o fewn yr ardal drwyddedig. ***I'w chynnwys yn y cynllun ar gyfer yfed alcohol yn unig.***
- Cerddoriaeth fyw – Nos Galan eisoes wedi'i ddileu gan yr ymgeisydd ar gyfer 36 awr. ***I'w newid i 'un awr ychwanegol' (fel Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan)***
- Cerddoriaeth wedi'i recordio – ***Amserau ansafonol ar gyfer Nos Galan i'w newid fel uchod***
- Perfformiadau Dawns – ***Amserau ansafonol ar gyfer Nos Galan i'w newid fel uchod***
- Unrhyw beth tebyg – ***Amserau ansafonol ar gyfer Nos Galan i'w newid fel uchod***
- Lluniaeth Hwyr y Nos – ***I barhau yn unol â'r cais***
- Gwerthu alcohol i breswylwyr - Dileu'r geiriau 'gellir cyflenwi alcohol 24 awr y dydd i breswylwyr.' Y stafelloedd gwely heb eu cwblhau i'w gosod eto. ***Cysylltir â'r Awdurdod Trwyddedu pan fyddant wedi'u cwblhau i drafod gofynion trwyddedu (os oes angen)***

### Rhaglen Weithredu

#### Cyffredinol:

- “Mesurau cadarn gan y rheolwyr a hyfforddiant effeithiol ar gyfer yr holl staff fel eu bod yn ymwybodol o'r drwydded safle a'r gofynion o ran cwrdd â'r pedwar amcan trwyddedu, gyda sylw arbennig i:...” ***Dileu hwn a'i ddisodli â “Hyfforddiant staff i'w ddarparu gan Ddeiliaid y Drwydded Safle. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys polisi gwirio oedran, gwerthu i bobl feddw ac ati. Y staff i arwyddo dogfen hyfforddiant gyda'u cyfrifoldebau, i'w hanfon gan yr Ymgeisydd o fewn 7 diwrnod.”***
- “Bod yn wylidwrus i atal gwerthu a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon” – ***Dileu hwn a'i ddisodli â “Byddwn yn wylidwrus o ran atal gwerthu a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac os down ni ar eu traws, byddwn yn ffonio'r Heddlu.” “Bydd unrhyw bosteri sydd gennym yn cael eu harddangos.”***

#### Atal Troseddau ac Anhrefn

- “System CCTV wedi'i gosod i fonitro mynedfeydd, allanfeydd a rhannau eraill o'r safle er mwyn ceisio cwrdd â'r amcan o atal troseddau” - ***I'w ddisodli gan “CCTV yn gwylio'r holl ardaloedd cyhoeddus o fewn yr ardal drwyddedig gan gynnwys y coridor.” “CCTV i gydymffurfio â Safonau Heddlu Dyfed Powys.”***

- “Rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw droseddau” - ***I'w ddisodli â “Byddwn yn rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw drosedd.”***
- “Cadw golwg ar ardaloedd y toiledau'n rheolaidd i atal gwerthu neu ddefnyddio cyffuriau” – ***I'w gadw***
- “Galw'r Heddlu os amheuir bod pobl â chyffuriau neu arfau yn eu meddiant” – ***I'w gadw***

#### **Diogelwch cyhoeddus**

- “Peidio â gorlenwi'r safle” – ***Ymweliad gan y Frigâd Dân ar 30ain Tachwedd. Niferoedd uchaf a ganiateir i'w cadarnhau ar ôl yr ymweliad. Cadarnhad mae'r niferoedd uchaf yw 186 yn yr eiddo, heb dodrefn.***
- “Arwyddion i'w harddangos yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel i osgoi tarfu ar gymdogion” - ***I'w ychwanegu dan Niwsans Cyhoeddus***
- “Bydd unrhyw un sy'n swnllyd yn fynych wrth adael y safle'n cael ei wahardd” - ***I'w ychwanegu dan Niwsans Cyhoeddus***
- “Unrhyw ddiod a gollir neu wydr wedi torri i'w lanhau ar unwaith i atal y lloriau rhag mynd yn llithrig neu'n anniogel” – ***I'w gadw***
- “Sicrhau bod biniau poteli'n ddigon pell o ardaloedd cyhoeddus bob amser” – ***I'w gadw***

#### **Atal Niwsans Cyhoeddus**

- Cau'r gerddi a'r ardaloedd agored am 11pm - ***I'w gadw***
- “Cadw biniau sbwriel a gwydr gwastraff yng nghefn y safle, lle nad oes mynediad i'r cyhoedd” – ***I'w gadw***
- “Peidio â chaniatáu mynediad i gwsmeriaid ar ôl oriau agor” - ***I'w ddisodli gan “Ni chaniateir mynediad i gwsmeriaid 'newydd' ar ôl canol nos yn ystod yr wythnos ac ar ôl 1am ar Ddydd Gwener a Dydd Sadwrn, ac eithrio i ysmygwyr”***
- “Unrhyw olau allanol wedi'i osod fel nad yw'n amharu ar breswylwyr cyfagos, a goleuadau allanol y safle i'w diffodd ar ôl i'r safle gau i'r cyhoedd” – ***I'w gadw***
- “Bydd unrhyw nwyddau sydd eu hangen i redeg y busnes yn cael eu dosbarthu i'r safle ar adeg neu mewn modd a fydd yn osgoi creu niwsans a tharfu ar breswylwyr cyfagos – ***I'w gadw***
- ***I gynnwys “Bydd y biniau poteli'n cael eu gwacau rhwng 9am a 6pm”***
  - “Gosodir arwyddion ger yr allanfa'n gofyn i gwsmeriaid barchu'r cymdogion a gadael yn dawel” – ***I'w ddisodli gan “Gosodir arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel fel nad ydynt yn amharu ar y cymdogion”.***

#### **Amddiffyn plant rhag niwed**

- “Atal cwsmeriaid rhag defnyddio iaith gref a rhegfeydd rhywiol” – ***I'w ddileu***
- ***I gynnwys “Gofynnir i blant dan 10 oed i adael y safle cyn 10pm oni bai eu bod yn mynychu parti teuluol a drefnwyd ymlaen llaw”***
- “Staff wedi'u hyfforddi'n dda yn y gofyniad i ofyn am brawf oedran” – ***I'w ddileu gan gyfeirio at y ddogfen ynghylch hyfforddiant staff***
- “Polisi gwirio oedran ‘Challenge 21’ yn ei le” – ***I'w gadw***

(Cyhoeddwyd | Issued : 24/10/2023)

### Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting

Mediation meeting held at Llew Coch, Tregaron on Monday 20<sup>th</sup> November 2017.

Present: Lynne Higginbottom (Applicant); Catrin Davies (Assistant Licensing Officer); John Evans (Police Licensing Officer – Heddlu Dyfed Powys Police); Sergeant Richard Marshall (Heddlu Dyfed Powys Police).

Some conditions submitted on application have been removed. Following matters were also agreed:

- Plan – Seven bedrooms – Not within licensed area. Bedrooms not yet completed to be let. ***Will contact Licensing Authority when completed and discuss licensing requirements (if required)***
- Plan – Side area – Enclosed area to be used as sort of external area (with patio doors open). Extra seating area. Concerns that as area not within licensed area no control over hours and conditions. ***To be included within plan for consumption of alcohol only.***
- Live Music – New Year’s Eve already removed by applicant for 36 hr. ***To be changed to ‘one additional hour’ (same as Christmas Eve and Boxing Day)***
- Recorded Music – ***Non-standard timing for New Year’s Eve to be changed as above.***
- Performances of Dance – ***Non-standard timing for New Year’s Eve to be changed as above.***
- Anything Similar – ***Non-standard timing for New Year’s Eve to be changed as above.***
- Late Night Refreshment – ***To remain as applied for***
- Sale of Alcohol to residents – ***Remove wording ‘alcohol can be supplied 24hrs a day to residents.’ Bedrooms not yet completed to be let. Will contact Licensing Authority when completed and discuss licensing requirements (if required)***

#### Operating Schedule

##### General:

- “Strong management controls and effective training of all staff so that they are aware of the premises licence and the requirements to meet the four licensing objectives with particular attention to:...” ***To be removed and replaced by “Staff training to be provided by Premises Licence Holders. Training will include age verification policy, selling to drunks etc. Staff to sign a training document with their responsibilities to be sent through by Applicant within 7 days.”***
- “Vigilance in preventing the use and the and sale of illegal drugs” – ***To be replaced by “We will be vigilant in preventing the use and the sale of illegal drugs and if we find them we will phone the Police.” “Any posters we have we will display”***

##### Prevention of Crime and Disorder

- “CCTV system installed to monitor entrances, exits and other parts of the premises in order to address the prevention of crime objective” – ***To be replaced by “CCTV to cover all public areas within the licensed area including the corridor.” “CCTV to comply with Dyfed Powys Police***
- “Reporting of criminal offences to Police” – ***To be replaced be “We will report any criminal offence to the Police”***
- “Regularly checking toilet areas to discourage the sale or use of drugs” – ***To remain***

- “Calling the Police if persons are suspected of being in possession of drugs or weapons” – **To remain**


### **Public safety**

- “Not overcrowding the premises” – **Visit by Fire Brigade on 30<sup>th</sup> November. Capacity figures to be confirmed after visit – Capacity figure confirmed on 11<sup>th</sup> May 2018 as being 186 unfurnished.**
- “Notices to be displayed asking customers to leave quietly so as not to disturb neighbours” – **To be added to Public Nuisance**
- “Anyone who is consistently noisy when leaving premises will be banned” – **To be added to Public Nuisance**
- “Spillages and broken glass to be cleaned up immediately to prevent floors from becoming slippery or unsafe” – **To remain**
- “Secure bottle bins away from public areas at all times” – **To remain**
  
- **Prevention of Public Nuisance**
- Close gardens and open areas at 11pm - **To remain**
- “Keep rubbish bins and glass refuse at the rear of the premises, away from public access” – **To remain**
- “Not admitting customers after opening hours” – **To be replaced by “Last entry time for ‘new’ customers will be midnight throughout the week and 1am Friday and Saturday’s save for smokers”**
- “Any outside lighting positioned in a way as not to cause a disturbance to nearby residents with external lighting for the premises to be turned off after the premises are closed to the public” – **To remain**
- “Deliveries of goods necessary for the operation of the business will be carried out at such a time or in such a manner as prevent nuisance and disturbance to nearby residents – **To remain**
- **To include “Emptying of bottle bins to be done between 9am and 6pm”**
- “Notices will be placed at the exit requesting customers to respect the neighbours and leave quietly” – **To be replaced by “Notices to be displayed asking customers to leave quietly so as not to disturb neighbours”**

### **Protection of children from harm**

- **To include “Children under the age of 10 will be asked to leave the premises before 10 p.m. except when present for a pre-arranged party”**
- “Well trained staff about requirement for persons’ proof of age – **To be removed and reference made to document regarding staff training**
- “Age verification policy in place – Challenge 21” – **To remain**

Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans



(Cyhoeddwyd | Issued : 24/10/2023)